

**Arolygiad o Bractis
Deintyddol Cyffredinol (lle
rhoddwyd rhybudd)
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
Practis Deintyddol Thomas
and Stroud**

09/03/2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am fwy o gymorth, cysylltwch â ni.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Cyd-destun	4
3. Crynodeb	5
4. Canfyddiadau	6
Ansawdd Profiad y Claf	6
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol	9
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	13
5. Y Camau Nesaf	14
6. Methodoleg	15
Atodiad A	17

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Thomas and Stroud yn 283 Heol Cas-gwent, Casnewydd, Gwent, NP19 8HL, ar 9 Mawrth 2016.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd Practis Deintyddol Thomas and Stroud yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn arwain at ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Practis wedi'i hen sefydlu ydy Practis Deintyddol Thomas and Stroud a leolir mewn tŷ pêr mewn ardal fasnachol o Gasnewydd, Gwent. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Practis Deintyddol Thomas and Stroud yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys tri deintydd, rheolwr practis, naw nyrs ddeintyddol, dau dderbynnydd, ac un therapydd deintyddol.

3. Crynodeb

Gwnaethom ganfod tystiolaeth i ddangos bod y practis yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion. Mynegodd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod yr arolygiad fod y tîm deintyddol wedi rhoi croeso cynnes iddynt ac roeddent yn fodlon ar y driniaeth roeddent yn ei derbyn.

Roedd system ar waith yn y practis er mwyn ceisio, ac ymateb i, safbwyntiau cleifion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir, ac roedd hyn yn gweithio'n dda.

Ar y cyfan, roeddem yn gallu cadarnhau bod y cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roeddem hefyd yn fodlon ar y trefniadau oedd ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal ieched. Canfuom fod yr offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel.

Roedd y ffordd y storiwyd ac y gwiriwyd y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn glynu wrth ganllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac, ar y cyfan, roedd yr holl gyfarpar brys mewn cyflwr da. Fodd bynnag, roedd dyddiad rhai o'r llwybrau anadlu, y chwistrelli a'r nodwyddau wedi dod i ben ac roedd angen eu disodli.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deintyddol cleifion a chanfod eu bod, ar y cyfan, yn ddigon manwl. Gwnaethom nodi, er hynny, rhai meysydd i'w gwella.

Canfuom fod y staff yn eglur am eu rolau a'u cyfrifoldebau, gyda'r ddau bartner deintyddol yn rhannu eu rôl rheoli ac arwain. Cawsant eu cefnogi'n ddyddiol gan reolwr practis effeithlon. Canfuwyd bod cyfathrebu rhwng staff yn dda. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau yn drefnus ac wedi'u hadolygu'n rheolaidd.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Gwnaethom ganfod tystiolaeth i ddangos bod y practis yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Mynegodd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod yr arolygiad fod y tîm deintyddol wedi rhoi croeso cynnes iddynt ac roeddent yn fodlon ar y driniaeth roeddent yn ei derbyn.

Roedd system ar waith yn y practis er mwyn ceisio ac ymateb i safbwyntiau cleifion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir, ac roedd hyn yn gweithio'n dda.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd 38 holiadur cyn yr arolygiad, a chwblhawyd pedwar ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd yr adborth a gawsom yn gadarnhaol. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

"Hapus iawn gyda'r gwasanaeth. Rwy'n derbyn croeso cynnes ac mae'r staff i gyd yn gyfeillgar iawn."

"Mae'r staff bob amser yn garedig a pharod eu cymwynas."

"Practis penigamp, baswn i ddim yn mynd nunlle arall."

Gofal gydag urddas

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar, urddasol a phroffesiynol. Yn ogystal, dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff.

Arddangoswyd rhestrau prisiau ar gyfer triniaeth y GIG; fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylai'r practis arddangos y gost ar gyfer triniaethau preifat hefyd, fel bod y cleifion yn ymwybodol o'r holl gostau deintyddol. Roedd copïau o daflen yn disgrifio gwasanaethau'r practis ar gael yn y dderbynfa i'r cleifion fynd â hi adref â nhw.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid arddangos costau triniaethau ar gyfer cleifion preifat, yn unol â safonau presennol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd ardal dawel ar gael i'r cleifion siarad â staff yn gyfrinachol, pe bai angen.

Gofal amserol

Gwnaeth y practis bob ymdrech i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd amserol. Dywedwyd wrthym fod system apwyntiadau hyblyg ar waith, ac y gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw ac ar sail argyfwng. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld gan y deintyddion. Dywedodd y sawl a oedd wedi profi oedi nad oeddent wedi gorfod aros am amser hir. Disgrifiodd y staff y broses o hysbysu cleifion pe byddai eu deintydd yn hwyr, neu'n absennol yn annisgwyl, ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Cadarnhawyd hyn gan glaf a siaradodd â ni yn ystod ein harolygiad.

Dyweddodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Gwelsom arwydd yn agos at fynedfa'r practis gyda manylion y rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng i helpu cleifion pan fo'r practis ar gau. Chwaraeodd rheolwr y practis neges peiriant ateb y practis hefyd, ac roedd hon yn cynnwys gwybodaeth cyswllt mewn argyfwng addas.

Cadw'n iach

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn cydnabod bod angen hybu iechyd er mwyn cefnogi llesiant eu cleifion. Er enghraifft, roedd amryw daflenni a phosteri yn hybu iechyd y geg a llesiant cyffredinol yn yr ystafell aros.

Dangosodd holiaduron AGIC a gwblhawyd a sgysiau gyda chleifion fod pobl yn teimlo eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu gofal a'u triniaeth.

Gofal unigol

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol. Dangosodd hyn fod y practis wedi cydnabod amrywiaeth y cleifion ac wedi ystyried ei gyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol.

Roedd mynediad i'r practis (ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd) trwy fynedfa gefn yr adeilad. Roedd arwydd yn nhoiled y llawr daear yn nodi ei fod yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn. Fodd bynnag, roedd y cyfleuster yn rhy fach i dderbyn cadair olwyn, felly gwnaethom argymhell y dylid cael gwared â'r arwydd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cael gwared â'r arwydd toiled hygyrch i gadeiriau olwyn.

Roedd taflen wybodaeth y practis yn glir iawn bod ganddo gyfleusterau cyfyngedig ar gyfer cleifion ag anableddau ac fe'u hanogwyd i ffonio'r practis i drafod sut y gellid diwallu eu hanghenion.

Gwelsom fod gan y practis system ar waith i geisio adborth cleifion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir. Yn ogystal, cofnodwyd cwynion ysgrifenedig a llafar; dangosodd y cofnod fod y terfynau amser a ddilynwyd er mwyn ymafael â chwynion yn briodol. Canfuom hefyd fod canlyniadau'r cwynion wedi cael eu cofnodi. Ychydig iawn o gwynion a wnaed, ac ni nodwyd unrhyw themâu cyffredin.

Roedd gan y practis weithdrefnau ysgrifenedig gweledol ar gael er mwyn i'r holl gleifion fynegi cwynion, boed yn gleifion y GIG neu'n rhai preifat, ac roedd y rhain yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Gweithio i Wella (GIG).

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Ar y cyfan, roeddem yn gallu cadarnhau bod cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith er mwyn diogelu cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Canfuom fod yr offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel.

Roedd y ffordd y storiwyd ac y gwiriwyd y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn glynu wrth ganllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac, ar y cyfan, roedd yr holl gyfarpar brys mewn cyflwr da. Fodd bynnag, roedd dyddiad rhai o'r llwybrau anadlu, y chwistrelli a'r nodwyddau wedi dod i ben ac roedd angen eu disodli.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deintyddol cleifion a chanfod eu bod, ar y cyfan, yn ddigon manwl. Gwnaethom nodi, er hynny, rhai meysydd i'w gwella.

Gofal diogel

Cyfleusterau clinigol

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal er mwyn sicrhau y caiff dyfeisiau trydanol bach eu defnyddio'n ddiogel. Roedd y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n weddol dda, ac roedd yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg. Roedd yr adeilad wedi'i oleuo'n dda a'i wresogi'n briodol, ac roedd cyfleusterau toiled ac ymolchi dwylo ar gael. Roedd diffoddwyr tân wedi'u lleoli'n strategol, ac roeddent wedi cael eu gwirio'n rheolaidd.

Rheoli heintiau

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau ar waith i amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Mae hyn oherwydd ein bod wedi gweld tystiolaeth o arferion atal a rheoli heintiau effeithiol a oedd wedi'u seilio ar ganllawiau Diwygiad 1 Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05) fel a ganlyn:

- Cadwyd cofnodion ar gyfer gwirio bod offer wedi cael eu cynnal, a chyflawnwyd archwiliadau rheolaidd o ofynion rheoli heintiau, yn unol â chanllawiau cyfredol.
- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offer mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr offer wedi cael eu profi i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn. Roedd

detholiad mawr o offer ar gael a chawsant i gyd eu storio'n briodol a'u dyddio fel bod staff yn gwybod bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio ar gyfer triniaethau'r cleifion.

- Roedd cyfarpar diogelu personol megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid ar gael. Roedd sinc benodol ar gyfer golchi dwylo.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd Hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Roedd hyn yn dangos bod y practis yn cymryd camau i amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau. Cafodd un deintydd frechiad atgyfnerthol yn erbyn Hepatitis B yn ddiweddar ac roedd yn aros am y canlyniadau. Gwnaethom ofyn i'r practis anfon y canlyniadau at AGIC unwaith iddynt eu derbyn.

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Storiwyd a chafwyd gwared ar wastraff clinigol, gan gynnwys dannedd a dynnwyd gydag amalgam, yn briodol.

Cyffuriau brys a chyfarpar dadebru

Roedd y ffordd y storiwyd ac y gwiriwyd y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn glynu wrth ganllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac, ar y cyfan, roedd yr holl gyfarpar brys mewn cyflwr da. Fodd bynnag, roedd dyddiad rhai o'r llwybrau anadlu, y chwistrelli a'r nodwyddau wedi dod i ben. Gwnaethom argymhell y dylai'r rhain cael eu disodli.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid gwirio'r cyfarpar dadebru brys er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol a'i ddisodli pan fo angen.

Gwelsom gofnodion a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n ymwybodol o'u rolau yn ystod argyfwng meddygol.

Diogelu

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion agored i niwed. Gwelsom bolisi ar gyfer amddiffyn plant ac un arall ar gyfer amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y staff i gyd wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant ac roedd rhai wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Trefnwyd hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed i'r holl staff ar gyfer mis Mai 2016. Gwnaethom ofyn i reolwr y practis hysbysu AGIC pan fo'r hyfforddiant wedi'i gyflawni.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod gan bob aelod o staff hyfforddiant diogelu/amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed cyfredol.

Roedd gwiriadau cyn dechrau gweithio ar waith ar gyfer yr holl gyflogeion, ac roedd y tri deintydd wedi derbyn gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd¹ yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Offer radiograffeg

Cawsom sicrwydd bod yr offer a'r broses o dynnu radiograffau (pelydrau-X) yn y practis hwn yn ddiogel. Proseswyd y pelydrau-X yn ddigidol. Gwelsom ddogfennau oedd yn nodi bod y peiriannau pelydr-X wedi'u gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw yn rheolaidd, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Arddangoswyd cyfarwyddiadau'r peiriannau a nodwyd manau dan reolaeth ar gyfer diogelwch staff a chleifion. Yn ogystal â hyn, roeddem yn gallu cadarnhau bod yr holl staff sy'n cymryd pelydrau-X wedi cwblhau hyfforddiant priodol. Roedd hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Gofal effeithiol

Canfuom fod y practis yn rhoi pwyslais ar wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus, er budd cleifion; cadwyd golwg ar gyraeddiadau'r practis yn rheolaidd. Derbyniodd y staff clinigol adolygiad blynyddol o'u perfformiad yn y gweithle a gwnaethant gymryd rhan mewn cynlluniau sicrwydd ansawdd a grëwyd gan y bwrdd iechyd lleol. Arsylwyd ar gofnodion blynyddol yr archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer pelydrau-X yn yr arolygiad hwn. Dangosodd y cofnodion fod y practis yn gofalu bod ansawdd y pelydrau-X yn cyrraedd safonau digonol er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ynghylch gofal a thriniaeth cleifion.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl fach o gofnodion cleifion ar gyfer pob un o'r deintyddion yn y practis. Ar y cyfan, canfuom fod safon y gwaith o gadw cofnodion cleifion yn briodol. Fodd bynnag, gwnaethom hysbysu tîm y practis o'r materion canlynol:

- Gellid ehangu ar nodiadau personol yn hytrach na defnyddio'r blychau tic a gynhyrchir gan y cyfrifiadur.

¹ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel, ac yn atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n disodli'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol. <https://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service>

- Dylid ceisio cydsyniad ar gyfer triniaeth ar bob ymweliad a sicrhau y caiff hyn ei ddogfennu yn nodiadau'r cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i ddeintyddion y practis sicrhau eu bod yn cofnodi manylion digonol yn nodiadau unigol y cleifion a'u bod yn ceisio cydsyniad a'i gofnodi ar bob ymweliad.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Canfuom fod y staff yn eglur am eu rolau a'u cyfrifoldebau, gyda'r ddau bartner deintyddol yn rhannu eu rôl rheoli ac arwain. Cawsant eu cefnogi'n ddyddiol gan reolwr practis effeithlon. Canfuwyd bod cyfathrebu rhwng staff yn dda. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw wedi ymroi i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau yn drefnus ac wedi'u hadolygu'n rheolaidd.

Roedd dau bartner y practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Roedd gan y practis reolwr practis effeithlon hefyd, a thîm o staff cymwys a chyfeillgar. Roedd y trefniadau oedd ar waith o ran cyfathrebu mewnol yn dda a dangosodd y staff ymroddiad i ofalu am eu cleifion.

Gwelsom gofnodion hyfforddi i ddangos bod staff yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd gan y practis bolisi hyfforddi.

Roedd cyfathrebu rhwng staff yn y practis yn dda. Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd practis ffurfiol yn cael eu cynnal bob tri mis a'u bod yn teimlo eu bod yn gallu trafod pryderon neu anghenion hyfforddi gyda rheolwr y practis ar adegau eraill, pe bai angen. Cwblhawyd gwerthusiadau gwaith ffurfiol yn flynyddol ar gyfer pob aelod o staff.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd yr holl ddeintyddion oedd yn darparu triniaeth breifat yn y practis wedi'u cofrestru ag AGIC ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos yn y practis yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru). Arddangoswyd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus priodol.

Gwnaethom argymhell y gallai'r practis ystyried darparu arddangosfa ffotograffig ar gyfer y cleifion i'w helpu i adnabod aelodau o staff unigol.

Canfuom systemau ar waith yn y practis i sicrhau bod yr holl staff newydd yn derbyn cwrs sefydlu priodol. Roedd hyn er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o, ac yn dod yn gyfarwydd â, pholisïau a gweithdrefnau'r practis. Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn y practis, a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi'u hadolygu'n rheolaidd ac wedi'u trefnu'n glir. Cafodd mwyafrif y wybodaeth ei storio'n electronig fel y gellid rheoli a rhannu unrhyw ddiweddariadau i bolisïau a gweithdrefnau'r practis yn hawdd.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Thomas and Stroud yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Unwaith y cytunir ar y cynllun gwella, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygiad deintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth galon dull AGIC o gynnal arolygiadau o fewn GIG Cymru. Bwriedir i'r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal

Ffigur 1



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol Thomas and Stroud

Dyddiad yr arolygiad: 09/03/2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
Ansawdd Profiad y Claf					
6	Dylid arddangos costau triniaeth ar gyfer cleifion preifat yn unol â safonau cyfredol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.	Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2.4.1	Rhestr lamedig o'r ffioedd preifat i gael ei harddangos ochr yn ochr â ffioedd y GIG yn yr ystafell aros.	Jackie	Cwblhawyd
7	Cael gwared â'r arwydd toiled hygrych i gadeiriau olwyn.	Safonau Iechyd Gofal 2.1	Arwydd i gael ei dynnu oddi ar y drws.	Jackie	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
10	Dylid gwirio'r cyfarpar dadebru brys er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol a'i ddisodli pan fo angen.	Safonau lechyd a Gofal 2.9; Rheoliadau lechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981	Llwybrau anadlu yn dod i ben ym mis Ebrill 2016. Mae set newydd bellach ar waith. Mae cyfarpar dadebru bellach yn cael ei wirio, ynghyd â gwiriadau ar y diffibriliwr a'r cyfarpar ocsigen.	Jackie	Cwblhawyd
10	Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant diogelu oedolion/amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed cyfredol.	Safonau lechyd Gofal 2.7; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.3.3, 8.5	Mae cwrs wedi'i drefnu ers mis Ionawr 2016 ar gyfer yr aelodau hynny o staff sydd heb gwblhau'r hyfforddiant eto. Dyddiad y cwrs 18 Mai 2016. Bydd y practis yn anfon copïau o dystysgrifau ar ôl cwblhau'r hyfforddiant.	Jackie	Diwedd mis Mai 2016
12	Rhaid i ddeintyddion y practis sicrhau eu bod yn cofnodi manylion digonol yn nodiadau unigol y cleifion a'u bod yn ceisio cydsyniad ar bob ymweliad.	Safonau lechyd Gofal 3.5 Safonau'r Cyngor	Trafodaeth rhwng yr ymarferwyr deintyddol cyffredinol. Caiff gwiriadau hanes meddygol a chydsyniad eu cofnodi ar bob ymweliad.	G. Thomas R. Stroud Chemungway	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
		Deintyddol Cyffredinol 4.1.1, 4.1.22			
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
	<i>Ni nodwyd unrhyw welliannau.</i>				

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras): Jackie Jackson.....

Teitl: Rheolwr y Practis.....

Dyddiad: 4 Ebrill 2016.....